# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## EIN(2) 05-06 (p6)

### Dyddiad y cyfarfod: 5 Gorffennaf 2006
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Y diweddaraf ar Gynnydd yr Adolygiad o'r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol ar gyfer y cyfnod 2007-2013

#### Diben

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â chwblhau Map Ardaloedd Cymorth y DU am y cyfnod 2007-2013 yn dilyn mabwysiadu Canllawiau Cymorth Rhanbarthol newydd gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2005.

#### Crynodeb/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r canlynol:

a) mae Llywodraeth y DU ar fin ymgynghori ar Fap drafft o Ardaloedd Cymorth y DU.

b) bydd angen anfon y Map o Ardaloedd Cymorth y DU, y cytunir arno, i'r Comisiwn Ewropeaidd i'w gymeradwyo yn ystod yr hydref.

#### Y Cefndir

Mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd y Canllawiau Cymorth Rhanbarthol newydd ar 21 Rhagfyr 2005. Roedd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys fel Ardal Gymorth Erthygl 87(3)a. Yn awr mae angen i Aelod-wladwriaethau gwblhau eu mapiau Ardaloedd Cymorth a chytuno arnynt gyda'r Comisiwn yn barod i'w gweithredu ar 1af Ionawr 2007.

Ar 15 Chwefror 2006, ymgynghorodd yr Adran Masnach a Diwydiant â rhanddeiliaid y DU ar y ffactorau y dylid eu hystyried wrth bennu'r ardaloedd Erthygl 87(3)c ychwanegol sydd eu hangen i gwblhau drafftio'r Map diwygiedig o Ardaloedd Cymorth y DU. Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 19 Ebrill.

Er gwaethaf llwyddiant sylweddol Llywodraeth y DU yn darbwyllo'r Comisiwn i godi terfyn uchaf maint y boblogaeth mewn Ardaloedd Cymorth o'r 9% a argymhellwyd yn wreiddiol i 23.9% o boblogaeth y DU, mae hyn yn dal i gynrychioli lleihad yng nghwmpas yr ardaloedd o'i gymharu â map cyfredol y DU. Felly, yn unol â'r amcan a nodwyd gan y Comisiwn o lai o Gymorth Gwladol gwell, wedi'i dargedu, bydd cyfyngiad yng nghwmpas ardaloedd map newydd y DU.

## Y Sefyllfa Ddiweddaraf

Cafodd yr Adran Masnach a Diwydiant fwy na 200 o ymatebion manwl i'w ymgynghoriad diweddar, gan gynnwys nifer gan Randdeiliaid o Gymru, ac mae wedi bod yn defnyddio'r awgrymiadau a wnaed wrth lunio'r drafft cyntaf o fap y DU.

Yn ôl a ddeallwn, roedd llawer o ymatebwyr yn ffafrio'r defnydd o wardiau etholaethol fel yr uned ddaearyddol sy'n sail i'r map ardaloedd Erthygl 87(3)c ychwanegol. Mae hyn yn ddefnyddiol yng nghyd-destun Dwyrain Cymru lle mae angen cadw cwmpas yr ardaloedd i ddelio â 'phocedi' o amddifadedd sy'n bodoli'n agos i ardaloedd mwy cyfoethog. Gwnaeth rhanddeiliaid ystod eang o awgrymiadau o ran y dangosyddion y dylid eu cyflwyno wrth bennu'r ardaloedd 87(c) ychwanegol, ac yn awr mae angen i'r Adran Masnach a Diwydiant ddethol y dangosyddion mwyaf priodol wrth lunio'r map drafft.

Mae swyddogion wedi bod yn cynnal trafodaeth barhaus gyda'r Adran Masnach a Diwydiant am yr egwyddorion y dylid talu sylw iddynt wrth ddrafftio'r map ac yn arbennig yr angen i gydbwyso ystyriaethau'n ymwneud ag ardaloedd o amddifadedd â'r angen i allu targedu ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd. Ni fu'r swyddogion, fodd bynnag, yn rhan o'r broses fanwl o ddrafftio'r mapiau.

Rhagwelwyd y byddai'r map drafft wedi ymddangos ar gyfer ymgynghoriad ganol mis Mehefin. Ond, o ystyried y newidiadau Gweinidogol yn yr Adran Masnach a Diwydiant, y dyddiad rhyddhau fydd dechrau Gorffennaf bellach. Yn y cyd-destun hwn mae'n bosibl y gall y map ymddangos tua'r adeg yr amserlennwyd cyfarfod y Pwyllgor.

Mae'r Adran yn dal yn bwriadu cwblhau'r ymgynghoriad ar y map drafft yn ystod Gorffennaf a chytuno ar fersiwn derfynol i'w hanfon i'r Comisiwn erbyn mis Medi 2006.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

Nodi'r datblygiadau diweddaraf o ran yr adolygiad o'r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol.